# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 9 Ebrill 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

12 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

13 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Alwminiwm Môn? (WAQ53541) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Ceir cryn bryder ynghylch dyfodol Alwminiwm Môn gan nad yw'r cwmni wedi llwyddo hyd yma i gytuno ar gontract pŵer newydd â'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ar ôl mis Medi 2009. Mae Rio Tinto wedi cyhoeddi y byddant yn ystyried un ai dirwyn y gwaith toddi i ben neu gau'r safle oni chaiff y contract ei adnewyddu.

Rydym wedi cydweithio llawer iawn ag Alwminiwm Môn ac â Llywodraeth y DU, a byddwn yn parhau i wneud hynny, er mwyn pwyso a mesur pob cyfle posibl ar gyfer cynnal gwaith y safle alwminiwm ar Ynys Môn. Rydym wedi cefnogi astudiaethau ynghylch dulliau amgen o gynhyrchu pŵer gan gynnwys safle biomas ac mae'r cynnig hwn yn parhau'n opsiwn i'w ystyried.

**David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad ariannol o raglen Cymorth Arloesi i Fusnesau gwerth £35m Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys y cynlluniau i sefydlu dwy ganolfan ymgynghorol newydd ar eiddo deallusol yn y Gogledd ac yn y De? (WAQ53569)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae'r Rhaglen Arloesi i Fusnesau dros 6 blynedd ac sydd werth £35m yn cynnwys prosiectau cystadleurwydd a phrosiectau cydgyfeirio. Bydd y rhaglen yn weithredol hyd 2013. Dyma fanylion ariannol y rhaglen:

Cydgyfeirio

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Costau Prosiectau | £23.3m |
| Grant o'r UE | £10.4m |
| Cymorth Grant gan y Cynulliad | £6.3m |
| PSI | £6.6m |

Cystadleurwydd

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Costau Prosiectau | £11.7m |
| Grant o'r UE | £4.7m |
| Cymorth Grant gan y Cynulliad | £4.2m |
| PSI | £2.8m |

Mae costau'r prosiectau (Cydgyfeirio a Chystadleurwydd) yn cynnwys grantiau arloesi gwerth £6.6m ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig, £6.3m ar gyfer darparu cymorth arloesi arbenigol, £6.6m ar gyfer gwasanaethau Gweithgynhyrchu a Dylunio arbenigol ac £1.3m ar gyfer sefydlu 2 Ganolfan Gymorth mewn perthynas â'r Rhaglen Arloesi ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer yr ymosodiadau a gofnodwyd yn erbyn staff Trenau Arriva rhwng y Fenni a Chaerdydd Canolog ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53592)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd sy'n gyfrifol am ystadegau cenedlaethol o ran mathau penodol o droseddau rheilffyrdd, yn cynnwys ymosodiadau ar staff. Ceir ystadegau rheilffyrdd a data ar dueddiadau rheilffyrdd cenedlaethol ar wefan Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd yn http://www.rail-reg.gov.uk/server/show/nav.1863.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pryd gwnaeth y Gweinidog gwrdd â rheolwyr Trenau Arriva Cymru ddiwethaf i drafod gwasanaethau rheilffordd rhwng y Fenni a Chaerdydd? (WAQ53593)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf wedi trafod hyn yn benodol gyda Threnau Arriva Cymru.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch gwasanaethau rheilffordd rhwng y Fenni a Paddington Llundain? (WAQ53595)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni chefais unrhyw drafodaethau o'r fath.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer yr ymosodiadau a gofnodwyd yn erbyn teithwyr trenau rhwng y Fenni a Paddington Llundain ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53596)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd sy'n gyfrifol am gyhoeddi amrywiaeth o ystadegau cenedlaethol mewn perthynas â throseddau ar y rheilffyrdd. Fodd bynnag, cofnodir data sy'n ymwneud ag ymosodiadau ar deithwyr trên gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain, a cheir manylion yng ngyhoeddiad blynyddol Ystadegau Trafnidiaeth Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid oes data manylach ar gael.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa welliannau a wnaethpwyd i'r cyswllt/gwasanaeth rheilffordd rhwng y Fenni a Paddington Llundain er 1999? (WAQ53597)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid oes gwasanaeth rheilffordd uniongyrchol rhwng y Fenni a gorsaf Paddington yn Llundain. Rwyf wedi cyfeirio at y rhan o'r daith hon rhwng y Fenni a Chaerdydd yn fy ateb i'ch cwestiwn ynglŷn â'r gwasanaeth hwnnw (WAQ53589).

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion nifer y siwrneiau trenau a gafodd eu canslo rhwng y Fenni a Paddington Llundain ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53598)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid oes gwasanaeth rheilffordd uniongyrchol rhwng y Fenni a gorsaf Paddington yn Llundain.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y cwynion yn erbyn Trenau Arriva Cymru ynghylch cyswllt trenau'r Fenni-Llundain ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53599)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid yw Trenau Arriva Cymru yn gweithredu gwasanaethau trên rhwng y Fenni a Llundain.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer yr ymosodiadau a gofnodwyd yn erbyn staff Trenau Arriva rhwng y Fenni a Paddington Llundain ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53600)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid yw Trenau Arriva Cymru yn gweithredu gwasanaethau trên rhwng y Fenni a Llundain.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pryd gwnaeth y Gweinidog gwrdd â rheolwyr Trenau Arriva Cymru ddiwethaf i drafod gwasanaethau rheilffordd rhwng y Fenni a Paddington Llundain? (WAQ53601)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni chefais unrhyw drafodaethau o'r fath.

**Jeff Cuthbert (Caerffili):** Pa drafodaethau / cyfathrebu a fu rhwng y Gweinidog a'i adran a phwyllgor trefnu'r Gemau Olympaidd, neu gorff perthnasol, ynghylch helpu busnesau yng Nghymru i ennill contractau ar gyfer Gemau Olympaidd 2012? (WAQ53614)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Cyfarfu'r Prif Weinidog â Lord Coe, Cadeirydd Pwyllgor Trefnu Gemau Olympaidd Llundain a John Armitt, Cadeirydd Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd ym mis Mehefin 2008. Siaradodd hefyd yn sioe deithiol Diwydiant Adeiladu Llundain 2012 a gynhaliwyd yng Nghymru y llynedd lle anogodd gwmnïau yng Nghymru i gymryd rhan ym mhrosiect y Gemau.

Mae fy nghyfarfod arfaethedig â John Armitt a'm hymweliad â safle'r Parc Olympaidd yn cael eu haildrefnu ar ôl gorfod canslo'r ymweliad ym mis Chwefror o ganlyniad i'r tywydd gwael. Mae fy swyddogion yn parhau i fod mewn cysylltiad ag Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd a CompeteFor er mwyn sicrhau y caiff busnesau yng Nghymru bob cyfle i gystadlu am gontractau Gemau Olympaidd Llundain 2012.

Cynrychiolir Cymru yng ngrŵp Cenhedloedd a Rhanbarthau Llundain 2012, ac mae swyddogion yn gweithredu fel pwynt cyswllt ac yn cysylltu â Pwyllgor Trefnu'r Gemau Olympaidd, Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd ac Adran Weithredol y Llywodraeth ar gyfer y Gemau Olympaidd.

**Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion faint o arian y mae'n ei wario bob blwyddyn o gyllideb yr Economi a Thrafnidiaeth ar y trydydd sector—ac at ba ddiben? (WAQ53634)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Wedi dadansoddi'r gwariant, gallaf gadarnhau bod tua £7.7miliwn wedi'i wario ar brosiectau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r trydydd sector yn ystod 2007/2008. Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, rhagwelir mai £6.2 miliwn fydd y ffigwr. O fewn y swm hwn, mae'r eitem unigol o wariant mwyaf sylweddol bob blwyddyn yn ymwneud â darparu trafnidiaeth gymunedol: £2.3 miliwn (07/08) a £2.6 miliwn (08/09). Mae gweddill y gwariant yn ymwneud â phrosiectau amrywiol sy'n gysylltiedig â mentrau cymdeithasol ac adfywio cymunedau.

Er gwybodaeth, ceir dadansoddiad o'r gwariant hwnnw yn y tabl isod:

| **Gwariant** | **2007-08 (£)** | **2008-09(£)** |
|---|---:|---:|
| Trafnidiaeth | 2,313,000 | 2,607,347 |
| Cymorth Mentrau Craidd | 746,277 | 421,077 |
| Prosiectau yn y De-ddwyrain | 427,685 | 120,707 |
| Prosiectau yn y De-orllewin | 1,253,656 | 1,246,738 |
| Prosiectau yn y Canolbarth | 299,900 | 2,200 |
| Prosiectau yn y Gogledd | 707,623 | 569,532 |
| Prosiectau Buddsoddi Cymru | 1,793,071 | 1,235,662 |
| Arian Cyfatebol / Busnes yn y Gymuned | 208,000 | 79,000 |
| **Cyfanswm** | **7,749,212** | **6,282,263** |

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o eglurder y rheolau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ynghylch bod yn gymwys i ddosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill? (WAQ53160)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am bennu pwy sy'n gymwys i dderbyn cyllid ar gyfer dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a ddarperir gan ddarparwyr dysgu yng Nghymru sy'n derbyn arian cyhoeddus. Nid yw'r cyfrifoldeb am bennu'r wybodaeth am fywyd ac iaith yn y DU y mae'n ofynnol i unigolyn feddu arni cyn cyflwyno cais am ddinasyddiaeth Brydeinig yn fater sydd wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Y Swyddfa Gartref (Asiantaeth Ffiniau'r DU) sy'n gyfrifol am y mater hwn.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu costau cyfreithiol yn eu cyllideb a rhoi gwybod beth maent yn ei wneud i gyfyngu ar y costau hyn? (WAQ53892)

**Jane Hutt:** Caiff llawer o'r cyngor cyfreithiol sydd ei angen ar adrannau ei ddarparu gan gyfreithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ni chodir tâl ar adrannau am y gwasanaethau mewnol hyn.

Ac eithrio unrhyw gyngor cyfreithiol sy'n ymwneud â materion cyflogaeth a chynlluniau ffyrdd, nid yw'r rhan fwyaf o adrannau yn defnyddio cyngor cyfreithiol allanol yn aml. Pe bai angen cyngor cyfreithiol allanol ar adran, byddai'r costau'n cael eu cynnwys o fewn cyllidebau gweinyddu neu raglenni sydd eisoes yn bodoli.

Fel pob math arall o wariant, pan ddefnyddir cyngor cyfreithiol allanol, disgwylir i'r adrannau geisio sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint a wariodd ei hadran ar gostau cyfreithiol ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53893)

**Jane Hutt:** Nid yw'n bosibl darparu'r gyfres amser hon fesul adran am fod dyletswyddau adrannol wedi newid yn sylweddol dros amser, a hynny'n fwyaf diweddar ar ôl etholiad diwethaf y Cynulliad. Caiff cyfanswm y gwariant o gyllidebau'r Weinyddiaeth Ganolog ar gyngor cyfreithiol allanol ei grynhoi yn y tabl isod ynghyd â chostau rhedeg Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Costau Gwasanaethau Cyfreithiol**

| Blwyddyn Ariannol | Gwasanaethau Cyfreithiol Allanol £'000 | Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm Gwasanaethau Cyfreithiol £'000 |
|---|---|---|---|
| 2007-2008 | 1,337 | 6,170 | 7,507 |
| 2006-2007 | 1,359 | 5,278 | 6,637 |
| 2005-2006 | 922 | 3,901 | 4,823 |
| 2004-2005 | 830 | 3,331 | 4,161 |
| 2003-2004 | 1,684 | 3,200 | 4,884 |

Noder:

- mae'r cynnydd mewn costau rhwng 2005-2006 a 2006-2007 yn bennaf o ganlyniad i uno Llywodraeth y Cynulliad gyda'r hen CCNCau;
- mae'r cynnydd yng nghostau'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol rhwng 2006-2007 a 2007-2008 yn bennaf o ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Cymru 2006;
- mae gwybodaeth ariannol blynyddoedd blaenorol wedi'i harchifo ac nid yw ar gael ar hyn o bryd; ac
- mae'n debyg bod rhywfaint o arian ychwanegol wedi'i wario ar wasanaethau cyfreithiol allanol i gefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn uniongyrchol a fyddai wedi'i gofnodi yn erbyn cyllidebau rhaglenni. Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu costau cyfreithiol yn eu cyllideb a rhoi gwybod beth maent yn ei wneud i gyfyngu ar y costau hyn? (WAQ53887)

**Y Gweinidog Dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Caiff llawer o'r cyngor cyfreithiol sydd ei angen ar adrannau ei ddarparu gan gyfreithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ni chodir tâl ar adrannau am y gwasanaethau mewnol hyn.

Ac eithrio unrhyw gyngor cyfreithiol sy'n ymwneud â materion cyflogaeth a chynlluniau ffyrdd, nid yw'r rhan fwyaf o adrannau yn defnyddio cyngor cyfreithiol allanol yn aml. Pe bai angen cyngor cyfreithiol allanol ar adran, byddai'r costau'n cael eu cynnwys o fewn cyllidebau gweinyddu neu raglenni sydd eisoes yn bodoli.

Fel pob math arall o wariant, pan ddefnyddir cyngor cyfreithiol allanol, disgwylir i'r adrannau geisio sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint a wariodd ei hadran ar gostau cyfreithiol ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53888)

**Jane Davidson:** Nid yw'n bosibl darparu'r gyfres amser hon fesul adran am fod dyletswyddau adrannol wedi newid yn sylweddol dros amser, a hynny'n fwyaf diweddar ar ôl etholiad diwethaf y Cynulliad. Ceir crynodeb o'r cyfanswm a wariwyd o gyllidebau'r Weinyddiaeth Ganolog ar gyngor cyfreithiol allanol yn y tabl isod ynghyd â chostau rhedeg Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Costau Gwasanaethau Cyfreithiol**

| Blwyddyn Ariannol | Gwasanaethau Cyfreithiol | Yr Adran Gwasanaethau | Cyfanswm Gwasanaethau |
|---|---|---|---|

| | **Allanol £'000** | **Cyfreithiol £'000** | **Cyfreithiol £'000** |
|---|---|---|---|
| 2007-2008 | 1,337 | 6,170 | 7,507 |
| 2006-2007 | 1,359 | 5,278 | 6,637 |
| 2005-2006 | 922 | 3,901 | 4,823 |
| 2004-2005 | 830 | 3,331 | 4,161 |
| 2003-2004 | 1,684 | 3,200 | 4,884 |

Noder:

- mae'r cynnydd mewn costau rhwng 2005-2006 a 2006-2007 yn bennaf o ganlyniad i uno Llywodraeth y Cynulliad â'r hen CCNCau;
- mae'r cynnydd yng nghostau'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol rhwng 2006-2007 a 2007-2008 yn bennaf o ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Cymru 2006;
- mae gwybodaeth ariannol blynyddoedd blaenorol wedi'i harchifo ac nid yw ar gael ar hyn o bryd; ac
- mae'n debyg bod rhywfaint o arian ychwanegol wedi'i wario ar wasanaethau cyfreithiol allanol i gefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn uniongyrchol a fyddai wedi'i gofnodi yn erbyn cyllidebau rhaglenni. Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at ddatganoli rheoliadau adeiladu? (WAQ53915)

**Jane Davidson:** Yn ystod y 18 mis diwethaf cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion a gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch trosglwyddo Rheoliadau adeiladu. Credaf ein bod bellach yng nghamau terfynol y trafodaethau hynny.

Mae Cymru'n Un yn parhau'n ymrwymedig i drosglwyddo Rheoliadau Adeiladu ac mae'n elfen allweddol o ran cyrraedd targedau cynaliadwyedd Llywodraeth y Cynulliad.

Mae sicrwydd penodol wedi'i roi bod Llywodraeth y Cynulliad, wrth geisio datganoli, yn parhau'n ymrwymedig i'r fframwaith Rheoli Adeiladu presennol yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys yr ymgynghoriad arfaethedig ar ddiwygio'r system rheoli adeiladu, ac y caiff y newidiadau eu cyfyngu i safonau perfformio yn y byrdymor.

Cyn i'r pwerau gael eu trosglwyddo, comisiynais y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad a'r diwydiant i wneud y gwaith angenrheidiol i sicrhau newid sylweddol o ran perfformiad adeiladu newydd drwy Reoliadau Adeiladu datganoledig.

Mae'r gwaith wedi arwain at sefydlu Canolfan Di-garbon i Gymru a fydd yn ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch a lledaenu gwybodaeth, a'r Siarter Adeiladau Gwyrdd sy'n rhoi modd i unigolion, cwmnïau a sefydliadau ddangos eu hymrwymiad i weithredu unigol. Mae dros 50 o gwmnïau a sefydliadau wedi'u cofrestru ar y Siarter hyd yma.

O ystyried maint y newid sylweddol a ragwelir, mae angen treialu a phrofi safonau uwch ar yr un pryd â gwaith y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy. Y llynedd, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Dai raglen o 22 o gynlluniau yn cynnwys hyd at 400 o adeiladau o fewn rhaglen Landlord Cymdeithasol Cofrestredig y Grant Tai Cymdeithasol, i'w hadeiladu yn unol â lefelau 4 a 5 o'r Cod Tai Cynaliadwy.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff? (WAQ53916)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylltiad rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'i swyddfa o ran yr holl Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff? (WAQ53917)

**Jane Davidson:** Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gweinidogion y DU a'u swyddogion o ran Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yr Amgylchedd. Mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn yn gymhleth ac mae'n hanfodol ein bod yn cael cwmpas y Gorchymyn yn gywir a sicrhau bod graddau cymhwysedd y Cynulliad yn glir. Byddaf yn sicrhau y caiff Aelodau eu hysbysu cyn gynted ag y bydd fersiwn drafft diwygiedig Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yr Amgylchedd ar gael.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53693)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Dim ond ers mis Ebrill 2007 y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bodoli fel endid cyfreithiol ar wahân, pan ddaeth Deddf Llywodraeth Cymru (2006) i rym. Cyn hynny roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r hyn sydd bellach yn Gomisiwn y Cynulliad yn un endid cyfreithiol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) ac roedd yn cynhyrchu un set o gyfrifon. O fewn y cyfrifon hyn nid yw'n bosibl i wahanu costau Llywodraeth Cynulliad Cymru o gyfrifon Swyddfa'r Llywydd (rhagflaenydd Comisiwn y Cynulliad).

Mae cyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gael yn:
http://wales.gov.uk/about/finance/nationalassemblyforwalesaccounts/?lang=cy

Er hwylustod, rwyf wedi nodi costau gweithredu net Cynulliad Cenedlaethol Cymru fesul blwyddyn o 1999-2000 i 2006-2007 yn y tabl isod.

Cyfanswm Gwariant Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| Blwyddyn Ariannol | £bn |
|---|---|
| 1999-2000 | 5.4 |
| 2000-2001 | 7.6 |
| 2001-2002 | 8.4 |
| 2002-2003 | 9.5 |
| 2003-2004 | 9.8 |
| 2004-2005 | 10.2 |
| 2005-2006 | 11.3 |
| 2006-2007 | 11.9 |

Ar gyfer 2007-2008, dengys cyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru gostau gweithredu net o £11.7bn.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar adeiladu adeiladau newydd y Llywodraeth ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53701)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Darperir gwybodaeth am gostau adeiladu'r Senedd a swyddfeydd Llywodraeth y Cynulliad ym Merthyr Tudful, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno isod.

Ym mis Mawrth 2008 cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) adroddiad ar gostau codi Adeilad y Senedd ym Mae Caerdydd. Alldro terfynol y prosiect hwn oedd £70m. Darperir dolen i adroddiad SAC isod.

http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Senedd_2008_report_cym.pdf

Cyfanswm costau adeiladu swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Merthyr Tudful oedd £11m, fel y nodwyd yn adroddiad Terfynu'r Prosiect. Darperir dolen i'r adroddiad isod.

http://wales.gov.uk/humanresources/publications/merthyrclosure/w.pdf?lang=cy

Mae gwaith adeiladu yn mynd rhagddo yn Aberystwyth o dan gontract pris targed. O dan drefniadau o'r fath, nid yw'r costau terfynol yn hysbys tan fod y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, cost rhagamcanedig dylunio a chodi'r adeilad yw £22m (heb gynnwys TAW, dodrefn ac offer TG). Disgwylir y caiff yr adeilad ei gwblhau yn Haf 2009.

Dyfarnwyd contract dylunio ac adeiladu traddodiadol ym mis Hydref 2008 ar gyfer swyddfa newydd yng Nghyffordd Llandudno. Disgwylir i'r costau adeiladu fod tua £20m (heb gynnwys TAW, ffioedd proffesiynol, dodrefn ac offer TG). Disgwylir i'r adeilad gael ei gwblhau erbyn gwanwyn 2010.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint a wariodd ei hadran ar gostau cyfreithiol ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53886)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Nid yw'n bosibl darparu'r wybodaeth hon fesul adran am fod dyletswyddau adrannol wedi newid yn sylweddol dros amser.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu costau cyfreithiol yn eu cyllideb a rhoi gwybod beth maent yn ei wneud i gyfyngu ar y costau hyn? (WAQ53896)

**Edwina Hart:** Caiff llawer o'r cyngor cyfreithiol sydd ei angen ar adrannau ei ddarparu gan gyfreithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ni chodir tâl ar adrannau am y gwasanaethau mewnol hyn.

Ac eithrio unrhyw gyngor cyfreithiol sy'n ymwneud â materion cyflogaeth a chynlluniau ffyrdd, nid yw'r rhan fwyaf o adrannau yn defnyddio cyngor cyfreithiol allanol yn aml. Pe bai angen cyngor cyfreithiol allanol ar adran, byddai'r costau'n cael eu cynnwys o fewn cyllidebau gweinyddu neu raglenni sydd eisoes yn bodoli.

Fel pob math arall o wariant, pan ddefnyddir cyngor cyfreithiol allanol, disgwylir i'r adrannau geisio sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint fesul bwrdd iechyd lleol, sydd wedi cael ei wario, fesul claf, ar ofal strôc bob blwyddyn y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer? (WAQ53928)

**Edwina Hart:** Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint o ffisiotherapyddion sydd yng Nghymru ag arbenigedd mewn iechyd meddwl? (WAQ53929)

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint o Ymddiriedolaethau nad ydynt yn cyflogi ffisiotherapyddion ag arbenigedd mewn iechyd meddwl? (WAQ53930)

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol ledled Cymru sy'n gallu cael gafael ar wasanaethau ffisiotherapi ac a ddarperir hyn gan y gwasanaeth generig ynteu gan ffisiotherapyddion ag arbenigedd mewn iechyd meddwl? (WAQ53931)

**Edwina Hart:** Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa brosiectau a ddynodwyd ar gyfer gwariant yng Nghyllideb Iechyd Drafft 2007 y rhoddwyd gorau iddynt a pha arian, os o gwbl, a wariwyd ar y prosiectau hyn cyn y rhoddwyd gorau iddynt? (WAQ53932)

**Edwina Hart:** Nid oes unrhyw brosiectau o'r fath.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i roi sylw i'r sefyllfa lle mae swyddi clinigol megis ffisiotherapyddion yn cael eu cadw'n wag dros gyfnodau hir? (WAQ53933)

**Edwina Hart:** Mae'r ymddiriedolaethau'n adolygu pob swydd wag wrth iddi godi fel rhan o'u prosesau rheoli cyffredinol. Gofynnais i Grŵp Cynghori Cymru ar Therapi ganfod a oes unrhyw broblemau o ran darparu therapi ac i baratoi papur i'r Bwrdd Pontio ar gyfer ei gyfarfod ar 18 Mai 2009.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint o swyddi ffisiotherapi clinigol a ddadsefydlwyd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf? (WAQ53934)

**Edwina Hart:** Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Faint o Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol sydd wedi rhewi eu recriwtio ar hyn o bryd ac a yw hyn yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth clinigol? (WAQ53935)

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa resymau a roddir gan y GIG yng Nghymru dros y cynnydd presennol yn nifer y swyddi clinigol sydd wedi'u rhewi neu swyddi sy'n cael eu cadw'n wag dros gyfnodau cynyddol? (WAQ53936)

**Edwina Hart:** Mae'r holl ymddiriedolaethau'n adolygu swyddi gwag wrth iddynt godi ac yn gwneud penderfyniadau ar sail gofynion o ran darparu gwasanaethau. Ni chedwir unrhyw ddata canolog sy'n nodi nifer y swyddi y gellir effeithio arnynt yn y ffordd hon.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A allai'r Gweinidog ddarparu'r ffigurau ar gyfer faint o nyrsys ysgol sydd ar waith mewn ysgolion a sut y mae hyn yn cymharu â ffigurau blaenorol? (WAQ53937)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ53945.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau nifer cyfartalog y gwelyau ym mhob uned strôc yng Nghymru, ynghyd â nifer cyfartalog y cleifion strôc a wasanaethir gan bob uned? (WAQ53938)

**Edwina Hart:** Mae niferoedd y gwelyau strôc ledled Cymru fel a ganlyn;

| **Ymddiriedolaeth / Ysbyty** | **Nifer y gwelyau strôc acíwt** |
|---|---|
| | |
| **Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru** | 10 |
| **Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru** | |
| • Ysbyty Glan Clwyd | 12 |
| • Ysbyty Maelor Wrecsam | 6 |
| **Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro** | |
| • Ysbyty Athrofaol Cymru | 10 |
| • Ysbyty Llandoche | 6 |
| **Ymddiriedolaeth GIG Gwent** | |
| • Ysbyty Brenhinol Gwent | 22 |
| • Ysbyty Neville Hall | 10 |
| **Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf** | |
| • Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 27 |
| • Ysbyty Tywysog Siarl | 24 |
| **Ymddiriedolaeth Hywel Dda** | 20 |
| **Ymddiriedolaeth Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg** | 24 |

Ni chesglir data ar nifer y cleifion strôc a gaiff eu trin ac ni chedwir yn ganolog fanylion nifer y cleifion a wasanaethir gan bob uned ar gyfartaledd.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu mewn termau ariannol faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi mewn gofal strôc yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf yng Nghymru o'i gymharu â chlefyd y galon a chanser ill dau? (WAQ53939)

**Edwina Hart:** Ni chedwir gwybodaeth sy'n cymharu'r ffigurau hyn yn ganolog.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi asesu pryd y bydd gofal strôc y GIG yng Nghymru yn cyfateb i'r hyn a geir yng ngweddill y DU? (WAQ53940)

**Edwina Hart:** Bydd gwaith Stroke Alliance sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, ar y cyd â'r gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o'r llif targedau deallus a'r broses o weithredu adroddiad yr adolygiad niwrowyddorau, yn darparu'r ysgogiad i wneud Cymru'n gyfartal â'r DU cyn gynted â phosibl.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog egluro sut y bydd y cynlluniau a osodir allan yn 'Cynllun i Fynd i'r Afael â Chanser yng Nghymru: Fframwaith Strategol 2008-2011' yn cael eu ddarparu'n lleol, yn enwedig ac ystyried ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru? (WAQ53941)

**Edwina Hart:** Mae cynlluniau gweithredu ar waith gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) ar gyfer rhoi'r fframwaith strategol ar waith ac maent yn gweithio gyda Rhwydweithiau Canser Rhanbarthol gyflawni hyn. Ar hyn o bryd mae'r GIG yn cynnal hunanasesiad manwl o'i gydymffurfiaeth â'r Safonau Canser

Cenedlaethol. Caiff adroddiadau manwl ar gydymffurfiaeth ei ddarparu i'r BILlau gan rwydweithiau canser rhanbarthol, a fydd yn gweithio gyda'r Grŵp Cydlynu Gwasanaethau Canser o fis Mehefin.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa ymchwil yng nghyswllt canser nas crybwyllwyd yn 'Cynllun i Fynd i'r Afael â Chanser yng Nghymru: Fframwaith Strategol 2008-2011'? (WAQ53942)

**Edwina Hart:** Mae'r 'Cynllun i Fynd i'r Afael â Chanser yng Nghymru: Fframwaith Strategol 2008-2011' yn cyfeirio'n benodol at waith ymchwil ymwneud â hap-dreialon wedi'u rheoli a gynhelir gan Rwydwaith Ymchwil Canser Cymru. Bydd pob Rhwydwaith Canser Rhanbarthol yn alinio ei raglenni ymchwil gyda Rhwydwaith Ymchwil Canser Cymru ac yn cysylltu â gweithgareddau Cydweithrediad Ymchwil Clinigol Cymru. Bydd y Fframwaith hefyd yn galw ar Rwydweithiau Canser Rhanbarthol i achub ar y cyfleoedd newydd a gynigir gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd yng Nghymru.

Mae Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol (WORD) yn gyfrifol am gefnogi'r broses o greu tystiolaeth o ansawdd uchel i lywio polisi ac rhoi budd i gleifion a'r cyhoedd. Mae WORD hefyd yn comisiynu gwaith ymchwil a datblygu, prosiectau rheoli cytundebau a mentrau ac yn eu hariannu'n uniongyrchol er mwyn sicrhau y caiff y safonau uchaf eu cyrraedd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu costau cyfreithiol yn eu cyllideb a rhoi gwybod beth maent yn ei wneud i gyfyngu ar y costau hyn? (WAQ53889)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Caiff llawer o'r cyngor cyfreithiol sydd ei angen ar adrannau ei ddarparu gan gyfreithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ni chodir tâl ar adrannau am y gwasanaethau mewnol hyn.

Ac eithrio unrhyw gyngor cyfreithiol sy'n ymwneud â materion cyflogaeth a chynlluniau ffyrdd, nid yw'r rhan fwyaf o adrannau yn defnyddio cyngor cyfreithiol allanol yn aml. Pe bai angen cyngor cyfreithiol allanol ar adran, byddai'r costau'n cael eu cynnwys o fewn cyllidebau gweinyddu neu raglenni sydd eisoes yn bodoli.

Fel pob math arall o wariant, pan ddefnyddir cyngor cyfreithiol allanol, disgwylir i'r adrannau geisio sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint a wariodd ei adran ar gostau cyfreithiol ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53890)

**Alun Ffred Jones:** Nid yw'n bosibl darparu'r gyfres amser hon fesul adran am fod dyletswyddau adrannol wedi newid yn sylweddol dros amser, a hynny'n fwyaf diweddar ar ôl etholiad diwethaf y Cynulliad. Ceir crynodeb o'r cyfanswm a wariwyd o gyllidebau'r Weinyddiaeth Ganolog ar gyngor cyfreithiol allanol yn y tabl isod ynghyd â chostau rhedeg Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Costau Gwasanaethau Cyfreithiol**

| **Blwyddyn Ariannol** | **Gwasanaethau Cyfreithiol Allanol £'000** | **Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol £'000** | **Cyfanswm Gwasanaethau Cyfreithiol £'000** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2007-2008 | 1,337 | 6,170 | 7,507 |
| 2006-2007 | 1,359 | 5,278 | 6,637 |
| 2005-2006 | 922 | 3,901 | 4,823 |
| 2004-2005 | 830 | 3,331 | 4,161 |
| 2003-2004 | 1,684 | 3,200 | 4,884 |

Nodwch:

- mae'r cynnydd mewn costau rhwng 2005-2006 a 2006-2007 yn bennaf o ganlyniad i uno Llywodraeth y Cynulliad gyda'r hen CCNCau;
- mae'r cynnydd yng nghostau'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol rhwng 2006-2007 a 2007-2008 yn bennaf o ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Cymru 2006;
- mae gwybodaeth ariannol blynyddoedd blaenorol wedi'i harchifo ac nid yw ar gael ar hyn o bryd; ac
- mae'n debyg bod peth arian ychwanegol wedi'i wario ar wasanaethau cyfreithiol allanol i gefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn uniongyrchol a fyddai wedi'u cofnodi yn erbyn cyllidebau rhaglenni. Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu costau cyfreithiol yn eu cyllideb a rhoi gwybod beth maent yn ei wneud i gyfyngu ar y costau hyn? (WAQ53894)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Caiff llawer o'r cyngor cyfreithiol sydd ei angen ar adrannau ei ddarparu gan gyfreithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ni chodir tâl ar adrannau am y gwasanaethau mewnol hyn.

Ac eithrio unrhyw gyngor cyfreithiol sy'n ymwneud â materion cyflogaeth a chynlluniau ffyrdd, nid yw'r rhan fwyaf o adrannau yn defnyddio cyngor cyfreithiol allanol yn aml. Pe bai angen cyngor cyfreithiol allanol ar adran, byddai'r costau'n cael eu cynnwys o fewn cyllidebau gweinyddu neu raglenni sydd eisoes yn bodoli.

Fel pob math arall o wariant, pan ddefnyddir cyngor cyfreithiol allanol, disgwylir i adrannau geisio sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod faint a wariodd ei hadran ar gostau cyfreithiol ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53895)

**Elin Jones:** Nid yw'n bosibl darparu'r gyfres amser hon fesul adran am fod dyletswyddau adrannol wedi newid yn sylweddol dros amser, a hynny'n fwyaf diweddar ar ôl etholiad diwethaf y Cynulliad. Ceir crynodeb o'r cyfanswm a wariwyd o gyllidebau'r Weinyddiaeth Ganolog ar gyngor cyfreithiol allanol yn y tabl isod ynghyd â chostau rhedeg Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Costau Gwasanaethau Cyfreithiol**

| Blwyddyn Ariannol | Gwasanaethau Cyfreithiol Allanol £'000 | Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm Gwasanaethau Cyfreithiol £'000 |
|---|---|---|---|
| 2007-2008 | 1,337 | 6,170 | 7,507 |
| 2006-2007 | 1,359 | 5,278 | 6,637 |
| 2005-2006 | 922 | 3,901 | 4,823 |
| 2004-2005 | 830 | 3,331 | 4,161 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2003-2004 | 1,684 | 3,200 | 4,884 |

Noder:

- mae'r cynnydd mewn costau rhwng 2005-2006 a 2006-2007 yn bennaf o ganlyniad i uno Llywodraeth y Cynulliad â'r hen CCNCau;
- mae'r cynnydd yng nghostau'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol rhwng 2006-2007 a 2007-2008 yn bennaf o ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Cymru 2006;
- mae gwybodaeth ariannol blynyddoedd blaenorol wedi'i harchifo ac nid yw ar gael ar hyn o bryd; ac
- mae'n debyg bod rhywfaint o arian ychwanegol wedi'i wario ar wasanaethau cyfreithiol allanol i gefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn uniongyrchol a fyddai wedi'i gofnodi yn erbyn cyllidebau rhaglenni. Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.